ABI

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

# Ymateb i Lifogydd

## Beth Sydd Angen i Chi ei Wybod

National Flood Forum





Beth i'w ddisgwyl gan yswiriwr eich cartref 03

Sut i leihau effaith bosib llifogydd 05

Beth os yw eich cartref o dan ddŵr 06

Y broses hawlio ar ôl llifogydd 08



# Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn egluro sut bydd eich cwmni yswiriant yn ymateb mewn argyfwng pan fydd eich cartref o dan ddŵr. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r cymorth y gallwch ei ddisgwyl gan eich yswiriwr yn y diwrnodau, yr wythnosau a'r misoedd ar ôl llifogydd mawr.

Bydd yswirwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu cwsmeriaid mor gyflym ag sy'n ymarferol bosib o ystyried maint y llifogydd, a'i effaith barhaus ar fynediad i ardaloedd sydd o dan ddŵr.



# Camau brys

## Beth i’w wneud

Os ydych chi’n credu y gallai eich cartref wynebu llifogydd, meddyliwch am eich diogelwch personol yn gyntaf ac a oes angen gadael eich cartref ar unwaith.

Os ydych yn byw mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd, fe allai fod yn ddefnyddiol cofrestru am rybuddion oddi wrth y Swyddfa Dywydd, Asiantaeth yr Amgylchedd Genedlaethol neu Ddatganoledig neu awdurdod lleol i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Gallwch glywed y datblygiadau diweddaraf drwy wrando ar eich radio lleol, y teledu neu drwy alw’r llinell llifogydd ar **0345 988 1188** am wybodaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a Chyfoeth Naturiol Cymru. Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch **0300 2000 100.**

Peidiwch â gwneud unrhyw beth a allai beryglu eich iechyd a’ch diogelwch a dilynwch unrhyw gyngor i adael eich cartref cyn gynted â phosib. Ffoniwch 999 os ydych yn teimlo mewn perygl ar unrhyw bwynt yn sgil dŵr llifogydd yn codi.



# Sut i leihau effaith bosib llifogydd

**Os oes amser a’i bod yn ddiogel, mae rhai camau y gallwch eu cymryd i leihau effaith bosib y llifogydd.**

### Cam 1

Gwiriwch fanylion a lefel eich polisi yswiriant. Paratowch becyn llifogydd sy’n cynnwys eich ffôn symudol a gwefrydd, rhifau cyswllt, unrhyw feddyginiaeth gyfredol, tortsh, batri, radio, manylion polisi yswiriant, menig rwber, cadachau gwlyb, jel glanhau dwylo, pecyn cymorth cyntaf a dŵr potel.

### Cam 2

Sicrhewch fod anifeiliaid anwes yn derbyn gofal ac yn ddiogel rhag y llifogydd.

### Cam 3

Symudwch eitemau gwerthfawr, sentimental neu hanfodol i fyny’r grisiau neu i le uchel ac ystyriwch symud eich car i ardal sy’n llai tebygol o wynebu llifogydd.

### Cam 4

Gosodwch unrhyw fesurau gwytnwch ar gyfer cartrefi lle bo modd, fel llifddorau neu orchudd brics aer.

### Os ydych yn gadael eich cartref ac os oes amser:

- ystyriwch fynd ag unrhyw bethau gwerthfawr gyda chi;
- clowch eich drysau a’ch ffenestri os yn bosib;
- rhowch wybod i’ch teulu a’ch cymdogion am eich cynlluniau a sut i gysylltu â chi;
- ewch â manylion cyswllt brys gyda chi gan gynnwys rhifau ffôn symudol, cyfeiriadau e-bost a dogfennau’r polisi yswiriant, gan gynnwys rhif eich polisi yswiriant, os yn bosib – bydd angen y wybodaeth hon ar eich yswiriwr er mwyn gallu cadw mewn cysylltiad â chi.

**Dim ond pan fydd yn ddiogel i chi wneud hynny y dylech ddychwelyd i’ch cartref ar ôl llifogydd**

# Beth os oes llifogydd yn eich cartref

**Os oes angen i chi symud o'ch cartref oherwydd difrod llifogydd a bod gennych yswiriant adeiladau neu gynnwys digonol, bydd eich yswiriwr yn cynnig darparu neu dalu am gost llety amgen priodol a threuliau ychwanegol cysylltiedig eraill, fel symud a storio eiddo sydd heb eu difrodi. Os oes gennych yswiriant adeiladau, bydd eich yswiriwr yn sychu, glanhau, atgyweirio ac adfer eich cartref. Os oes gennych yswiriant cynnwys, bydd eich yswiriwr yn sychu, glanhau ac yn adfer eich eiddo neu'n newid neu'n talu am unrhyw eiddo sydd wedi'i ddifrodi cymaint fel na ellir eu glanhau na'u hatgyweirio.**

Os yw eich cartref wedi'i ddifrodi'n ddifrifol gan lifogydd, gall gymryd hyd at flwyddyn neu fwy i'ch cartref gael ei adfer fel bod modd byw ynddo unwaith eto. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i adeiladau sychu ar ôl llifogydd. Bydd eich yswiriwr neu'r asesydd colledion a benodir yn gwneud popeth o fewn eu gallu i adfer eich cartref cyn gynted â phosib ac i drafod cynnydd gyda chi drwy gydol y broses.

Os oes llifogydd difrifol yn eich cartref, mae eich yswiriwr yn debygol o ddefnyddio amrywiaeth o arbenigwyr i sicrhau ei fod yn cael ei atgyweirio cyn gynted â phosib ac i safon uchel. Gall hyn gynnwys asesydd colledion i asesu'r difrod ac i oruchwylio'r broses atgyweirio, syrfëwr i oruchwylio'r gwaith adeiladu, cwmnïau glanhau a sychu arbenigol ac adeiladwyr ac addurnwyr proffesiynol. Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn egluro'r amserlen ar gyfer atgyweirio eich cartref, pa arbenigwyr fydd eu hangen ym mhob cam a pha mor hir y bydd pob cam yn ei gymryd.





**£37.8m**

Taliadau brys a wnaed gan yswirwyr i gartrefi a busnesau i'w helpu ar unwaith i ddelio ag effeithiau dinistriol llifogydd a achoswyd gan Stormydd Ciara, Dennis a Jorge ym mis Chwefror/Mawrth 2020.





Mae gweddill y canllaw hwn yn amlinellu'r broses arferol ar gyfer adfer cartref ar ôl llifogydd mawr. Ei nod yw bod yn ganllaw o ran yr hyn i'w ddisgwyl. Os yw'r broses neu'r amserlen ar gyfer adfer eich tŷ yn wahanol iawn, bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn gallu esbonio pam.

# Y broses hawlio ar ôl llifogydd

**Mae chwe phrif gam wrth roi eich cartref yn ôl at ei gilydd ar ôl llifogydd**

### Cam 1

Yn syth ar ôl y llifogydd

Cysylltwch â'ch yswiriwr cyn gynted â phosib. Bydd eich yswiriwr yn eich cynghori ar drefnu llety brys os oes angen, y wybodaeth y bydd eich yswiriwr ei hangen i gefnogi eich cais a sut i fwrw ymlaen â'r broses lanhau ac atgyweirio ar unwaith.

### Cam 2

Asesu'r difrod a dod o hyd i lety dros dro

Bydd asesydd colledion yn cael ei benodi i asesu'r hawliad. Bydd asesiad cychwynnol o'r difrod yn cael ei wneud, bydd y broses atgyweirio'n cael ei hesbonio a bydd yr opsiynau ar gyfer llety amgen yn ystod y broses atgyweirio, os oes angen, yn cael eu hamlinellu. Dylech ddisgwyl clywed wrth eich asesydd colledion ar ôl i chi gysylltu â'ch yswiriwr a byddan nhw'n cysylltu â chi os bydd angen trefnu ymweliad â'ch cartref.

### Cam 3

Glanhau a chlirio

Bydd eich asesydd colledion yn trefnu'r broses o lanhau a chlirio eich cartref. Dylai'r gwaith hwn ddechrau o fewn 4 wythnos i'w drafod gyda'ch asesydd colledion.

### Cam 4

Diheintio a sychu eich cartref

Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn penodi cwmni sychu i ddiheintio a sychu eich cartref. Gall hyn gymryd o ychydig wythnosau i rai misoedd. Bydd eich asesydd colledion yn rhoi'r amserlen a'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

### Cam 5

Atgyweirio ac ail-adeiladu

Dylai'r gwaith atgyweirio ddechrau'n fuan ar ôl i chi gael eich tystysgrif sychu oddi wrth y cwmni sychu. Bydd eich asesydd colledion yn penodi adeiladwr i wneud y gwaith atgyweirio ac ail-adeiladu, a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr amserlenni disgwyliedig.

### Cam 6

Symud nôl i'ch cartref

Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn trafod gyda chi pryd y gallwch ddychwelyd i'ch cartref. Yn dibynnu ar ba mor wael yw'r difrod yn eich cartref, gall hyn fod rhwng ychydig wythnosau a blwyddyn neu fwy ar ôl y llifogydd.

**Cam 1**

# Yn syth ar ôl y llifogydd



## PWY

Dylech gysylltu â'ch yswiriwr cyn gynted â phosib os yw eich cartref neu eiddo wedi'u difrodi. Mae gan y rhan fwyaf o yswirwyr linell gymorth 24 awr. Os oes gennych yswirwyr adeiladau a chynnwys ar wahân, cysylltwch â'r ddau. Os ydych yn rhentu eich cartref, cysylltwch â pherchennog yr adeilad gan mai nhw sy'n debygol o fod yn gyfrifol am atgyweirio unrhyw ddifrod i'r adeilad.

O dan amgylchiadau arferol bydd eich hawliad yswiriant yn broses ddidrafferth. Mae proses hawlio eich yswiriwr wedi'i chynllunio i roi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch. Serch hynny, efallai y bydd asesydd colledion yn cysylltu â chi, sy'n annibynnol ar eich yswiriwr, i gynnig helpu i wneud hawliad ar eich rhan. Os ydych yn ystyried cyflogi asesydd colledion, gofynnwch am wybodaeth ynglŷn â'u holl gostau a thaliadau gan mai chi sy'n gyfrifol am eu costau. Nid oes modd adennill y rhain oddi wrth eich yswiriwr. Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n rheoleiddio aseswyr colledion a dylech ond cyflogi asesydd sydd wedi'i awdurdodi ganddyn nhw. I gael mwy o wybodaeth am rôl aseswyr colledion a chwmnïau rheoli hawliadau ewch i wefan ABI am gopi o '*Home Insurance and the Role of Claims Management Companies: Top Tips from the ABI*'.

## BETH

Bydd eich yswiriwr yn cymryd eich manylion ac yn rhoi cyngor ar y camau nesaf ar unwaith. Mae eich yswiriwr yn debygol o drafod â chi a oes angen llety amgen arnoch ac i ofyn cwestiynau amrywiol i ddarganfod maint y difrod i'ch cartref a'ch eiddo. Gan ei bod yn debygol y bydd nifer o hawliadau'n cael eu gwneud ar ôl llifogydd mawr, mae eich yswiriwr yn debygol o ofyn am wybodaeth i benderfynu a oes angen rhoi blaenoriaeth i chi, fel a ydych yn sâl, yn anabl, yn oedrannus neu â phlant ifanc.

Os yw eich cartref neu eiddo wedi'u difrodi'n ddrwg, efallai y bydd eich yswiriwr yn trefnu asesydd colledion i gysylltu â chi i asesu'r difrod yn fanylach ac i oruchwylio'r atgyweirio cyn gynted â phosib. Yna byddwch yn symud ymlaen i gam dau. Os yw'r difrod yn gymharol fach, efallai y bydd eich yswiriwr yn gallu ymdrin â'ch hawliad heb fod angen asesiad manwl a byddwch yn gallu osgoi rhywfaint o gam 2.

Siaradwch â'ch yswiriwr ynglŷn â chlirio unrhyw eitemau a allai beryglu iechyd (fel bwyd yn pydru). Bydd yn helpu'r broses hawlio yswiriant i gael cymaint o fanylion â phosib am eitemau sydd wedi'u difetha ac i hyn gael ei gofnodi. Nid yw yswirwyr yn disgwyl i gwsmeriaid gadw pentyrrau o eiddo sydd wedi eu difrodi.

## PRYD

Os yw eich cartref wedi'i ddifrodi'n ddrwg a bod eich yswiriwr yn penodi asesydd colledion, bydd yr asesydd colledion yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib. Os yw'r difrod yn gymharol fach, bydd eich yswiriwr yn trefnu i chi symud i'r cam priodol isod cyn gynted â phosib. Ceir mwy o fanylion am amserlenni isod.



**Cam 2**

# Asesu'r difrod a dod o hyd i lety dros dro



## PWY

Os yw eich cartref wedi'i ddifrodi'n ddifrifol, mae eich yswiriwr yn debygol o benodi asesydd colledion i gysylltu â chi i asesu'r difrod yn fanwl, trefnu llety amgen i chi a chynllunio'r broses atgyweirio. Yn dibynnu ar faint y difrod, bydd yr asesydd naill ai'n ymweld â chi neu'n cydlynu â chi dros y ffôn. Os yw eich cartref wedi'i ddifrodi'n ddifrifol, gall eich asesydd colledion benodi syrfëwr i roi arbenigedd ychwanegol. Bydd yr asesydd colledion yn gweithredu fel rheolwr prosiect yn ystod y broses o atgyweirio eich cartref.

## BETH

Mae nifer o yswirwyr yn penodi aseswyr colledion oherwydd eu bod nhw'n arbenigwyr wrth asesu difrod, trefnu llety amgen addas am gyfnodau hir a chynllunio'r gwaith atgyweirio ar eich cartref. Unwaith y bydd eich asesydd colledion wedi cwblhau eu hasesiad cychwynnol, dylen nhw allu rhoi amserlen fras i chi sy'n amlinellu'r hyn sydd angen ei wneud i atgyweirio eich cartref, pwy fydd yn gwneud y gwaith a pha mor hir y bydd yn ei gymryd.

Os oes angen i chi adael eich cartref yn ystod y broses adfer, mae'r rhan fwyaf o bolisïau adeiladau a chynnwys yn cynnwys hyd at 20% o gyfanswm y gwerth yswirio i dalu am eich anghenion llety amgen a chostau ychwanegol cysylltiedig, fel costau gwresogi. Ar yr amod bod gennych yswiriant digonol (yswiriant adeiladau sy'n adlewyrchu'r costau ail-adeiladu llawn a'r yswiriant cynnwys sy'n adlewyrchu gwerth eich eiddo) fel arfer bydd hyn yn ddigon i dalu i chi aros mewn llety amgen. Os mai yswiriant cynnwys yn unig sydd gennych, bydd eich yswiriant yn cael ei gyfyngu gan y swm sy'n cael ei yswirio yn eich polisi cynnwys. Os ydych chi'n rhentu'ch cartref, siaradwch â'ch landlord neu'ch rheolwr adeiladau am yr yswiriant y gallai fod ganddyn nhw i ddarparu ar gyfer eich anghenion tai neu'r camau y maen nhw'n eu cymryd i'ch ail-gartrefu. Efallai y byddwch yn dewis aros yn eich cartref yn ystod y broses atgyweirio, serch hynny, efallai y byddwch am ystyried yr amgylchedd y byddwch yn byw ynddo, fel y tarfu posib, a thrafod hyn gyda'ch yswiriwr neu asesydd colledion.

## PRYD

O dan amgylchiadau arferol, byddai eich asesydd colledion yn cysylltu o fewn 24 awr i chi'n cysylltu â'ch yswiriwr ac yn cynnal unrhyw ymweliadau angenrheidiol cyn gynted â phosib. Fodd bynnag, ar ôl llifogydd mawr, gall hyn gymryd ychydig yn hirach oherwydd nifer yr hawliadau a'r anawsterau o ran cael mynediad at yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd.

Serch hynny, dylech ddisgwyl clywed oddi wrth eich asesydd colledion ar ôl cysylltu â'ch yswiriwr. Os oes angen iddyn nhw ymweld, dylen nhw wneud hynny o fewn 7 diwrnod i'r ardal ddod yn hygyrch.

O dan amgylchiadau arferol, dylid cadw unrhyw garpedi, dodrefn neu nwyddau eraill sydd wedi'u clirio o'ch cartref nes bod eich asesydd colledion wedi cytuno y gellir cael gwared arnyn nhw. Serch hynny, os yw'n mynd i gymryd sawl diwrnod i'ch asesydd colledion ymweld â chi, efallai y bydd angen i chi daflu rhai pethau. Os gwnewch chi hyn, gofynnwch am sêl bendith eich asesydd colledion yn gyntaf a dilynwch eu cyngor. Os nad yw hyn yn bosib, defnyddiwch synnwyr cyffredin i roi tystiolaeth i'ch asesydd colledion o'r hyn rydych wedi'i daflu. Tynnwch nifer o luniau o bopeth rydych chi'n ei waredu ac ysgrifennwch fanylion fel gwneuthuriad a rhif cyfresol y nwyddau. Os oes angen i chi gael gwared ar garpedi sydd wedi'u difrodi gan lifogydd, torrwch a chadwch samplau. Bydd hyn yn cyflymu'r broses o setlo'ch hawliad.

**Cam 3**

# Glanhau a chlirio

## PWY

Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn trefnu i'ch cartref gael ei lanhau a'i glirio. Os oes angen, efallai y byddan nhw'n cyflogi cwmni glanhau arbenigol i wneud hyn, sy'n cael eu galw'n aml yn gwmni adfer ar ôl trychineb.

## BETH

Y cam cyntaf i adfer eich cartref yw cael gwared ar y silt a'r malurion eraill a adawyd gan y llifogydd, glanhau mannau yr effeithiwyd arnyn nhw a gwirio'r cyflenwadau a'r offer nwy a thrydan. Yna bydd y broses o glirio eich cartref lle bo angen – mae hyn yn debygol o gynnwys cael gwared ar ddodrefn a ffitiadau sydd wedi'u difrodi a chael gwared ar blastr a gwaith coed sydd wedi'u difrodi. Bydd faint o glirio sydd ei angen yn wahanol ar gyfer pob eiddo a bydd yn dibynnu ar ffactorau fel lefel y difrod, dyfnder y dŵr, y gwaith adeiladu a'r broses sychu. Mae'n bosib na fydd maint llawn y difrod a achosir gan ddŵr llifogydd yn amlwg ar yr wyneb, ac felly mae'n bosib y bydd angen clirio mwy na'r disgwyl. Mae hyn, serch hynny, yn hanfodol i ganiatáu iddo sychu'n iawn ac ni fydd mwy o glirio'n digwydd nag sydd ei angen.

Os oes gennych unrhyw eitemau gwerthfawr neu bersonol (er enghraifft, albwm lluniau) dal yn eich cartref, trafodwch sut i'w glanhau a'u symud o'ch cartref gyda'ch yswiriwr, asesydd colledion neu gwmni adfer ar ôl trychineb.

## PRYD

Yn dibynnu ar faint y llifogydd, dylech ddisgwyl i'r gwaith ddechrau o fewn pedair wythnos o ddweud wrth eich yswiriwr am eich hawliad neu ei drafod gyda'ch asesydd colledion. Os yw'n debygol o gymryd yn hirach, bydd eich asesydd colledion yn trafod hyn gyda chi.





**Cam 4**

# Diheintio a sychu eich cartref

## PWY

Mae eich yswiriwr neu asesydd colledion yn debygol o benodi cwmni sychu arbenigol i ddiheintio a sychu eich cartref. Ar ddiwedd y broses, bydd y cwmni sychu yn cadarnhau bod eich cartref yn ddigon sych er mwyn i'r gwaith atgyweirio ddechrau.

## BETH

Ar ôl glanhau a chlirio eich cartref, y cam nesaf yw sychu a diheintio y mannau sydd wedi'u heffeithio. Gall sychu cartrefi gymryd peth amser. Gall dŵr llifogydd dreiddio'n ddwfn i wead eich cartref hyd yn oed os yw'r llifogydd yn edrych yn fach ac yn fas.

Gall y lleithder dwfn yma gymryd amser hir i symud drwy'r waliau a'r lloriau, hyd yn oed os yw'r arwyneb yn ymddangos yn sych. Rhaid i'r broses ddiheintio a sychu gael ei chwblhau cyn dechrau'r gwaith atgyweirio, neu fel arall ni fydd y gwaith atgyweirio yn gynaliadwy a gallai'r difrod ail-ymddangos yn y dyfodol.

Mae'n bwysig nad ydych yn diffodd unrhyw beiriannau sychu sydd wedi'u gosod yn eich cartref oni bai y gofynnir i chi wneud hynny gan eich yswiriwr neu asesydd colledion, oherwydd gallai hyn achosi oedi i'r cyfnod sychu. Bydd unrhyw gostau trydan ychwanegol o ganlyniad i ddefnyddio'r peiriannau sychu yn cael eu cynnwys yn eich yswiriant.

## PRYD

Y ffactor pwysicaf fydd yr amser y mae'n ei gymryd i'ch cartref sychu. Yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r llifogydd, gall gymryd ychydig wythnosau i sawl mis neu fwy. Mae'n bwysig peidio â chwtogi'r broses hon oherwydd gallai hyn arwain at broblemau lleithder difrifol yn y dyfodol a difrodi unrhyw waith atgyweirio ac ail-addurno. Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn rhoi amcan bras o'r amserlen debygol ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gynnydd.



**Step 5**

# Gwaith atgyweirio ac ail-adeiladu

## PWY

Mae eich yswiriwr neu asesydd colledion yn debygol o benodi contractwr adeiladu i wneud y gwaith atgyweirio ac ail-adeiladu. Dim ond adeiladwyr sy'n bodloni eu meini prawf ac sy'n gymwys i wneud y gwaith y bydd yswirwyr neu aseswyr colledion yn eu cyflogi. Eich yswiriwr sy'n gyfrifol am waith yr adeiladwyr a benodir.

Efallai y byddai'n well gennych dderbyn setliad ariannol. Bydd hyn yn golygu mai chi sy'n gyfrifol am reoli'r broses atgyweirio eich hun. Bydd eich yswiriwr yn gweithio gyda chi i sicrhau bod y setliad ariannol wedi ystyried yr holl waith sydd ei angen i adfer yr eiddo ac i egluro'r pethau allweddol y dylech eu hystyried (fel faint o waith atgyweirio sydd ei angen a phwysigrwydd defnyddio cyflenwyr â chymwysterau addas).

Os byddwch yn derbyn setliad ariannol, byddwch yn gyfrifol am ansawdd y gwaith atgyweirio a wneir gan eich dewis o gyflenwyr ac ni fydd yr yswiriwr yn gyfrifol os yw'r gwaith hwn yn ddiffygiol neu os oes angen ei ail-wneud.

Pe bai difrod ychwanegol annisgwyl yn cael ei ddarganfod yn ystod y broses atgyweirio, bydd eich yswiriwr yn egluro'r broses i chi ar gyfer ail-ymgysylltu â nhw.



## BETH

Unwaith fydd eich cartref yn sych, gall y gwaith o adfer ac atgyweirio eich cartref ddechrau, er enghraifft ail-blastro a gosod cegin newydd lle bo angen.

Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion hefyd yn trafod gyda chi os hoffech chi gynllunio'r atgyweiriadau i'ch cartref i sicrhau ei fod yn gwrthsefyll llifogydd yn well ac yn fwy gwydn yn y dyfodol.





Os nad yw hyn yn costio mwy na chost atgyweirio eich cartref i'w gyflwr cyn y llifogydd, ni fydd eich yswiriwr yn codi tâl arnoch am y newidiadau hyn. Os yw hyn yn costio mwy nag atgyweirio eich cartref i'w gyflwr cyn y llifogydd, chi fydd yn gyfrifol am dalu'r gost ychwanegol. Nid yw nifer o nodweddion gwrthsefyll neu wytnwch yn costio mwy nag atgyweiriadau safonol. Bydd y rhan fwyaf o bolisïau cynnwys yn talu am gost lawn newid eitemau sydd wedi'u difrodi gyda rhai newydd cyfatebol. Os yw gwerth eich cynnwys yn fwy na'ch yswiriant efallai y bydd setliad eich hawliad yn cael ei leihau i adlewyrchu hyn.

## PRYD

Dylai'r gwaith atgyweirio ac ail-adeiladu ddechrau'n fuan ar ôl i'ch cartref gael tystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi sychu'n llwyr.

### Arferion Gorau Yswirwyr ar gyfer Cynnig Setliad Ariannol

Fel diwydiant, mae yswirwyr wedi ymrwymo i gefnogi cwsmeriaid sydd wedi dioddef llifogydd, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Os byddai'n well gennych dderbyn setliad ariannol, bydd yswirwyr yn ceisio sicrhau eich bod yn deall yn llawn beth mae hynny'n ei olygu i chi. Mae aelodau yswirwyr ABI wedi cytuno i'r set ganlynol o egwyddorion arfer gorau wrth gynnig setliadau ariannol i gwsmeriaid ar ôl llifogydd:

1. Bydd yswirwyr yn trafod gyda'u cwsmeriaid y ffordd orau o gyfathrebu â nhw.
2. Bydd yswirwyr yn bodloni eu hunain bod swm y setliad ariannol a gynigir yn foddhaol yn wyneb amcangyfrif o'r costau i adfer yr eiddo.
3. Bydd yswirwyr yn hysbysu cwsmeriaid yn glir o oblygiadau posib derbyn setliad ariannol.
4. Bydd yswirwyr yn cynnal gwiriadau angenrheidiol i asesu gallu cwsmer i reoli'r broses adfer.
5. Bydd yswirwyr yn cyfathrebu eu rôl yn glir ar ôl i'r setliad ariannol gael ei dalu i'r cwsmer.

### Cynllun Ailgodi'n Gryfach ar ôl Llifogydd

Lansiwyd y cynllun "Ailgodi'n Gryfach" ym mis Ebrill 2022. Mae hyn yn caniatáu yswirwyr cartrefi i allu cynnig mynediad i gwsmeriaid at fesurau gwytnwch yn erbyn llifogydd neu wrthsefyll llifogydd mewn eiddo. Mae hwn yn waith y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i atgyweirio'r difrod a achosir gan lifogydd. Gall yr arian dalu am osod mesurau gwrthsefyll llifogydd a fydd yn lleihau effaith llifogydd yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i: godi socedi trydanol a nwyddau gwynion i ffwrdd o lefel y llawr, gosod brics aer sy'n cau eu hunain a drysau gwrthsefyll llifogydd. Gall y costau ad-dalu hefyd gynnwys cynnal arolygon i ddeall y perygl o lifogydd a'r camau lliniaru posib.

Mae'n bwysig gwirio os yw eich yswiriwr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Ailgodi'n Gryfach. Gellir dod o hyd i'r yswirwyr sy'n cymryd rhan yn **floodre.co.uk/buildbackbetter**

**Step 6**

# Symud nôl i’ch cartref

### PWY

Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn trafod gyda chi pryd fydd hi’n ddiogel i chi symud nôl i’ch cartref.

### BETH

Efallai y byddwch yn gallu symud nôl i’ch cartref tra bod rhywfaint o’r gwaith atgyweirio yn mynd yn ei flaen. Lle bu angen ail-blastro, mae’n eithaf cyffredin i bobl symud i mewn cyn i’r ail-addurno gael ei gwblhau. Caiff eich cais ei setlo unwaith y bydd yr holl waith wedi’i gwblhau a’r taliadau sy’n weddill wedi’u gwneud.

### PRYD

Yn dibynnu ar faint y difrod, gallech fod nôl yn eich cartref mewn ychydig wythnosau ar ôl y llifogydd neu gallai gymryd tua blwyddyn cyn i chi allu symud nôl i’ch cartref. Bydd eich yswiriwr neu asesydd colledion yn eich galluogi i symud nôl i’ch cartref cyn gynted â phosib gan gymryd i ystyriaeth y gwaith angenrheidiol i lanhau, sychu, atgyweirio ac ail-addurno eich cartref. Mae’n bwysig peidio â chwtogi’r rhannau hanfodol o’r broses oherwydd gallai hyn arwain at broblemau’n ailgodi yn y dyfodol.








# Beth os bydd pethau’n mynd o’i le?

Bydd pob cwmni yswiriant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau yr ymdrinnir â’ch hawliad mor gyflym a didrafferth â phosib. Os ydych yn teimlo’n anhapus am unrhyw agwedd, yna cysylltwch â’ch yswiriwr. Os ydych yn anhapus am y ffordd yr ymdriniwyd â’r hawliad, yna dylech ofyn i’ch yswiriwr sut i wneud cwyn ffurfiol.

Os ydych dal yn anhapus ar ddiwedd gweithdrefn gwyno eich yswiriwr, gallwch gwyno wrth Wasanaeth Ariannol Annibynnol yr Ombwdsmon ar 0800 023 4567.



# Geirfa

## CWMNI ADFER AR ÔL TRYCHINEB

Cwmni sy'n cael ei gyflogi i lanhau a chlirio eich cartref ar ôl llifogydd. Mae'r cwmnïau hyn hefyd yn cyflenwi offer sychu ar gyfer eich cartref.

## CWMNI SYCHU

Cwmni sy'n arbenigo mewn cyflenwi a gweithredu offer sychu ar ôl llifogydd.

## TÂL DROS BEN

Swm o arian y mae'n rhaid i ddeiliad y polisi ei dalu tuag at gost hawliad, er enghraifft, y £50 cyntaf.

## ASESYDD COLLEDION

Person, yn annibynnol ar y cwmni yswirio, ond sydd wedi'i gyflogi a'i dalu ganddo, sy'n gwirio bod hawliad wedi'i yswirio ac yn trafod y swm sy'n daladwy ar gyfer hawliad gyda deiliad y polisi. Eich yswiriwr sy'n talu'r ffi am y gwasanaeth hwn.

## ASESYDD COLLEDION

Person sy'n negodi hawliadau ar ran deiliaid polisi. Mae'r ffi am y gwasanaeth hwn yn cael ei dalu gan ddeiliad y polisi, nid yr yswiriwr.

## NEWYDD-YN-LLE-HEN

Yswiriant eiddo lle byddai eitem a gollwyd neu a ddinistriwyd yn cael ei gyfnewid am un newydd sbon, heb unrhyw ddidyniad ar gyfer traul. Gelwir hefyd yn 'un newydd yn gyfnewid' ('replacement as new' yn Saesneg).

## ADFER

Lle caiff adeilad sydd wedi'i yswirio ei ddifrodi, mae'n arferol i setliad gael ei wneud drwy dalu swm o arian, ond gall polisi roi'r dewis i'r person sydd â'r yswiriant neu'r yswiriwr adfer neu ail-adeiladu yn lle hynny.

## SWM A YSWIRIWYD

Y swm y mae adeilad wedi'i yswirio ar ei gyfer, a'r uchafswm y bydd y cwmni yswiriant yn ei dalu ar gyfer unrhyw hawliad.

# Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

Cymdeithas Yswirwyr Prydain
www.abi.org.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd
www.environment-agency.gov.uk

Y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol
nationalfloodforum.org.uk

Fforwm Llifogydd yr Alban
www.scottishfloodforum.org

Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban
www.sepa.org.uk/environment/water/flooding

Cyfoeth Naturiol Cymru
naturalresources.wales/flooding
(fersiwn Gymraeg)

cyfoethnaturiol.cymru/llifogydd
(fersiwn Saesneg)

Northern Ireland Direct
www.nidirect.gov.uk/articles/homeowner-flood-protection-grant-scheme

Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon
www.infrastructure-ni.gov.uk/topics/rivers-and-flooding

Sefydliad Siartredig yr Aseswyr Colledion
www.cila.co.uk

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
www.rics.org

Canllawiau Llifogydd
www.floodguidance.co.uk

Association of British Insurers
One America Square, 17 Crosswall,
London EC3N 2LB
T: 020 7600 3333 | **abi.org.uk**